**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 2 Chwefror 2023 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe ) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Martyn Peters | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Darren Price | Cyngor Sir Gar |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Paul Boyle | Prifysgol Abertawe |
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Simon Brennan | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Steven Jones | Cyfarwyddwr Datblygu (Cyngor Sir Benfro) |
| Allison Lowe | Cyngor Abertawe |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Morris | Cyngor Abertawe |
| Huw Mowbray | Cyngor Abertawe |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Anthony Parnell | Cyngor Sir Gar |
| Nicola Pearce | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Phil Ryder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Brett Suddell | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |
| Ian Williams | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Steve Hunt (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)
Maria Battle (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a/ac Medwin Hughes (Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant)
Karen Jones (Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot))

## 38 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, datganwyd y cysylltiad canlynol:

Datganodd Chris Foxall gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnodion rhif 42 a 43 a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitemau hyn gael eu trafod.

## 39 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

## 40 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.

Er nad oedd unrhyw gyhoeddiadau, roedd y Cadeirydd yn falch o ailadrodd bod y 9 prosiect/rhaglen yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe wedi cael eu cymeradwyo'n llawn. Agorwyd Arena Abertawe yn 2022 ac mae'r gwaith i adeiladu 71/72 Ffordd y Brenin wedi hen ddechrau. Dinas-ranbarth Bae Abertawe oedd yr unig Fargen Ddinesig i glustnodi ei holl arian ac roedd pob prosiect yn cael ei gyflwyno.

## 41 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 42 Cyd-bwyllgor Rhanbarth Dinas Bae Abertawe wedi'i Gyfethol.

Cyflwynodd Phil Ryder (Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Rheolwr Swyddfa'r Portffolio) adroddiad i adolygu aelodau cyfetholedig y Cyd-bwyllgor ar gyfer y pedwar sefydliad partner a chytuno arnynt.

Estynodd y Cadeirydd ddiolch ar ran y Cyd-bwyllgor i Steve Wilkes am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Penderfynwyd y bydd y Cyd-bwyllgor yn cadarnhau'r aelodau cyfetholedig presennol a nodwyd yn nhabl 1 ac yn cymeradwyo penodi Paul Boyle yn aelod cyfetholedig newydd Prifysgol Abertawe.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Boyle a’i longyfarch ar ei benodiad.

## 43 Adolygiad o Gadeirydd y Bwrdd Strategol Economaidd.

Cyflwynodd Jonathan Burnes (Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Cyfarwyddwr y Portffolio) adroddiad i geisio cymeradwyaeth am yr enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

**Penderfynwyd:**

1) Ailbenodi Chris Foxall yn Gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd;

2) Ailbenodi Amanda Davies yn Is-gadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd.

## 44 Adroddiad Monitro Ariannol 2022/23 - Sefyllfa Alldro Dros Dro ar gyfer Chwarter 3.

Cyflwynodd Chris Moore (Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Swyddog Adran 151) adroddiad i'r cyd-bwyllgor i roi'r diweddaraf iddynt ar sefyllfa ariannol ddiweddaraf dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**Penderfynwyd** y bydd y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad sy'n rhoi'r diweddaraf am fonitro ariannol.

## 45 Adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Phil Ryder (Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Rheolwr y Swyddfa Portffolio) adroddiad a oedd yn amlinellu'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

**Penderfynwyd** nodi'r Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'i raglenni/brosiectau cyfansoddol.

## 46 Diweddariad ar gynnydd Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau.

Cyflwynodd Huw Mowbray (Cyngor Abertawe - Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol) adroddiad "er gwybodaeth" i roi gwybod i'r cyd-bwyllgor am y canlynol:

1) Y cynnydd a wnaed a statws rhaglen Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau BDdBA.
2) Datblygiad achos busnes diweddaraf y rhaglen fel yn Atodiad A.
3) Canlyniad Adolygiad Asesiad Perfformiad Gateway fel yn Atodiad B a'r cynllun gweithredu fel yn Atodiad C.

## 47 Diweddariad ar Gefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.

Cyflwynodd Dr Brett Sudell (Rheolwr Rhaglen CATCI) adroddiad "er gwybodaeth" i hysbysu'r cyd-bwyllgor o'r cynnydd a wnaed a statws rhaglen Cefnogi Arloesedd mewn Twf Carbon Isel Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

## 48 Asesu Costau Adeiladu Cynyddol.

Cyflwynodd Jonathan Burnes (Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Cyfarwyddwr y Portffolio) adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r diweddaraf i'r cyd-bwyllgor ar gostau adeiladu chwyddiannol a chynyddol sy'n effeithio ar brosiectau o fewn y portffolio a'r camau gweithredu lliniarol sy'n cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â hwy fel y disgrifir yn Atodiad A.

**49 Adroddiad Asesu Lleihau Carbon Portffolio.**

Darparodd Jonathan Burnes (Bargen Ddinesig Bae Abertawe - Cyfarwyddwr y Portffolio) adroddiad "er gwybodaeth" i asesu'r cyfraniadau at dargedau lleihau carbon rhanbarthol a wnaed gan raglenni a phrosiectau Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.39 am

**Cadeirydd**